

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) i egwyddorion cyffredinol y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) inquiry into the general principles of the [Tertiary Education and Research \(Wales\) Bill](#)

TER 32

Ymateb gan: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Response from: Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW)

Cyngor Cyllido Addysg  
Uwch Cymru  
Higher Education Funding  
Council for Wales

hefcw

Cyflwyniad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil.



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## **Crynodeb Gweithredol**

- A. Rydym yn cefnogi'r nodau a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn newydd, er mai canlyniad hynny fydd diddymu CCAUC. Er hynny, mae'r ymateb hwn yn cynnig nifer o ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth. Ein barn ni yw y byddai'r diwygiadau hyn yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei nodau a chyfiawnhau'r adnoddau sy'n cael eu buddsoddi. Heb newidiadau o'r fath i'r Bil, ein pryder yw y byddai arian ac adnoddau cyhoeddus yn cael eu buddsoddi ledled Cymru heb sicrhau'r budd a fwriedir.
- B. Mae ein hymateb yn seiliedig ar safbwynt CCAUC fel y corff cyllido a rheoleiddio cyfredol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Rydym wedi manteisio ar ddealltwriaeth arbenigwyr perthnasol ar draws ein Pwyllgor Gwaith a'n Cyngor. Gan nad oeddem yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio'r Bil, rydym bellach yn manteisio ar y cyfle hwn i awgrymu diwygiadau posibl.
- C. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn bod angen corff hyd braich er mwyn goruchwyllo'r Comisiwn yn strategol, ac o safbwynt rheoleiddio a chyllido. Rydym yn pryderu bod nifer o ddarpariaethau wedi'u cynnwys yn y Bil a fydd yn tansilio'r oruchwyliaeth honno. Mae paragraff 2.4 ein hymateb yn cyfeirio at y meysydd hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf sylweddol.
- D. Mae'r Bil yn nodi swyddogaethau asesu ansawdd a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau statudol i'r Comisiwn, Estyn a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu cadw'r trefniadau cyfredol, gan gollu cyfle i symleiddio'r trefniadau hynny a pharhau i drin gwahanol rannau o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar wahân. Mae peryg i hyn danseilio'r bwriad i sicrhau parch cydradd ar draws y sector. Mae peryg i hyn hefyd greu problemau o ran atebolrwydd a gallu'r Comisiwn i gynnal ei rôl oruchwyllo strategol. Nod ein hargymhellion ym mharagraffau 2.5-2.7 yw mynd i'r afael â hyn.
- E. Bydd ymchwil ragorol yn ei gwneud hi'n bosibl i greu Cymru sy'n gynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'r Bil yn peryglu'r weledigaeth hon drwy gynnwys darpariaethau allai ysgogi'r Comisiwn i ganolbwyntio ar flaenoriaethau byrdymor ar draul deilliannau hirdymor. Ym mharagraffau 2.8 - 2.13, nodir yn ein hymateb gynigion ar gyfer sut y gellir diwygio a chryfhau'r Bil er mwyn sicrhau'r mwyaf o effaith, gan gynnwys yr awgrym y dylid cynnwys dyletswydd strategol ychwanegol i ganolbwyntio ar gydweithio a chystadleurwydd mewn perthynas â gweithgarwch ymchwil ac arloesi.
- F. Ceir risg glir o weithredu darpariaethau'r Bil heb sefydlu cynlluniau clir ar gyfer yr amrediad anferth o faterion gweithredol y mae angen ymdrin â nhw er mwyn sicrhau llwyddiant y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys y risg yn gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch dyfodol staff CCAUC, sydd yn parhau er i Adolygiad Hazelkorn argymell y Comisiwn newydd chwe blynedd yn ôl, sy'n creu risg o gollu'r arbenigedd manwl sydd ei angen er mwyn sefydlu'r Comisiwn yn llwyddiannus. Amlinellir y risg hon ym mharagraffau 2.14 a 2.15.
- G. Ceir nifer o ganlyniadau anfwriadol yn y Bil, ac rydym wedi awgrymu y gallai diwygiadau i'r Bil ymdrin â'r canlyniadau hyn. Gallai'r canlyniadau hyn greu cryn fiwrocratiaeth, rhwystrau o ran cyflawni gwaith rheoleiddio, cynnydd

mewn cystadleuaeth ddiangen, diffyg ystwythder o fewn y Comisiwn ac o fewn y sector addysg drydyddol, dyletswyddau sy'n gwrthdaro a darparwyr heb eu rheoleiddio a ysgogir gan elw yn derbyn cymorth o gronfeydd cyhoeddus.

## Cyflwyniad

### **1. Rôl CCAUC a chrynodeb o'r cyflwyniad**

- 1.1 Dyma ein hymateb i ymchwiliad cyhoeddus y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (Y Bil). Rydym eisoes wedi rhoi [cyflwyniad ysgrifenedig](#) i'r Pwyllgor i gefnogi'r dystiolaeth a roddwyd ar lafar ddydd Iau 18 Tachwedd. Ac ystyried yr amser rhwng y cais am gyflwyniad a'r dyddiad cyflwyno, gwnaed y cyflwyniad hwnnw gan aelod o bwyllgor gwaith CCAUC. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn cynnwys trafodaethau â'n [Cyngor](#), y caiff ei aelodau eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus. Er ein bod wedi ceisio osgoi dyblygu ein hymateb blaenorol, mae rhywfaint o orgyffwrdd yn anochel.
- 1.2 Rydym yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd ac a rymuswyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, gyda phwerau ychwanegol yn sgil Deddf Addysg Bellach (Cymru) 2015. Mae'n ofynnol inni ystyried, neu gadw at, ofynion deddfau eraill, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Safonau'r Gymraeg. Rydym yn rheoleiddio, yn cyllido ac yn dylanwadu ar ddarparwyr addysg uwch, a hefyd yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a nodir yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg i'n Cyngor. Gellir gweld rhagor o fanylion am ein rôl a'n llwyddiant fel sefydliad yn y cyflwyniad i'r Pwyllgor y cyfeiriwyd ato'n flaenorol.
- 1.3 Tra'r oedd Llywodraeth Cymru'n llunio'r Bil, cawsom statws rhanddeiliad allanol. Nid ydym wedi cymryd unrhyw ran yn y gwaith o ddatblygu'r Bil.
- 1.4 Mewn egwyddor, rydym yn parhau i gefnogi prif fyrddwn y cynigion<sup>1</sup> a amlinellwyd gan yr Athro Ellen Hazelkorn, chwe blynedd yn ôl, yn gysylltiedig â'r Bil. Rydym yn cytuno y dylai'r sector ôl-16/ôl-orfodol fod yn gydlynus ac yn integredig, gan gynnwys trefniadau gweinyddol i'w gwneud hi'n haws bodloni anghenion cyflogwyr a myfyrwyr, ar raddfa Cymru ac yn rhanbarthol, gan gael gwared â'r tensiynau'n gysylltiedig â'r rhyngwynebau rhwng y sectorau cyfredol.
- 1.5 Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu corff cyhoeddus newydd sy'n gyfrifol am oruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol. Byddai corff cyhoeddus newydd â phwerau deddfwriaethol priodol, mewn sefyllfa dda i gyflawni nod Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru "i rymuso darparwyr addysg i fod yn rhan o sector amrywiol, ystwyth a chydweithredol sy'n cyflawni er budd dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau."<sup>2</sup>
- 1.6 Fodd bynnag, credwn na fydd y Bil, fel y cafodd ei gyflwyno, yn gwireddu'r uchelgais a nodwyd gan yr Athro Hazelkorn nac, yn wir, nodau Llywodraeth Cymru, yn llawn. Mae'r Bil yn or-fanwl mewn rhai meysydd allweddol, ac yn

---

<sup>1</sup>Ceir hyd i Argymhellion <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf> ar dudalennau 53 i 57.

<sup>2</sup> Fel y nodwyd yng [nghytundeb cydweithredu Llywodraeth Cymru-Plaid Cymru](#).

aneglur mewn meysydd eraill. I raddau helaeth, mae hyn yn deillio o'r ffaith bod llawer o gymhlethdodau'r system gyfredol yng Nghymru, fel y'u nodwyd gan yr Athro Hazelkorn, wedi'u cadarnhau yn y ddeddfwriaeth newydd.

- 1.7 Yn ogystal â hyn, oherwydd maint y pŵer Gweinidogol a nodir yn y ddeddfwriaeth, ceir risg na fydd y Comisiwn, fel 'corff hyd braich'<sup>3</sup>, yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol, gyda dryswch yng nghraidd ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Mae'r Bil hefyd yn gorfanylu, sy'n creu risg na fydd y Comisiwn yn ddigon ystwyth i allu ymateb i ddigwyddiadau sy'n datblygu o ran yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd. Rydym wedi profi anawsterau fel hyn wrth weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, fel yr esboniwyd gennym yn flaenorol wrth y [Pwyllgor](#).
- 1.8 Mae'r ymateb hwn yn argymhell yn gryf y dylid diwygio'r Bil i liniaru rhag risgiau i gyflawni nodau deddfwriaethol a gweledigaeth y Comisiwn.
- 1.9 Ar wahân i hyn, rydym wedi tynnu sylw at ddiwygiadau penodol y gellid eu cyflwyno i'r Bil, i gefnogi'r argymhellion hyn. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ar ffurf Atodiad i'r cyflwyniad hwn. Rydym hefyd wedi rhannu'r cyflwyniad a'r Atodiad hwn â Llywodraeth Cymru.

## **Ymgynghoriad ar Egwyddorion Cyffredinol**

### **2. Ymateb CCAUC i'r pwyntiau allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.

- 2.1 Mae angen deddfwriaeth newydd i wireddu'r weledigaeth a amlinellwyd gan yr Athro Hazelkorn a'r nodau a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru (fel y nodwyd ym mharagraff 1.5 uchod). Dim ond corff cyfun wedi'i rymuso, ac yr ymddiriedir iddo'r pwerau deddfwriaethol angenrheidiol i reoleiddio a chyllido pob darparwydd yn y sector addysg drydyddol, a all gyflawni'r nodau hynny. Ein barn ni yw fod risg wirioneddol na chaiff y nodau hyn eu cyflawni yn y pen draw, neu y byddant yn cael eu cyflawni mewn modd annigonol, oherwydd y ffordd mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i drafftio ar hyn o bryd. Nodir argymhellion isod ar dair thema a allai liniaru'r risgiau hyn.

*Galluogi corff cyhoeddus i weithredu o hyd braich*

- 2.2 Ceir risg glir na fydd y corff cyfun hwn yn gallu sicrhau'r canlyniadau strategol y'i crëwyd ar eu cyfer, os bydd ei swyddogaeth fel corff hyd braich yn y fantol. Y sail resymegol ar gyfer corff hyd braich mewn addysg uwch yw fod gan ei sefydliadau unigol ymreolaeth helaeth rhag y llywodraeth, gan sicrhau na cheir unrhyw ymyrraeth na chwtogi uniongyrchol ym maes ymchwil ac addysgu sy'n

---

<sup>3</sup>Nodwyd manteision cael corff hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ar dudalen 38 yn adolygiad yr Athro Hazelkorn.

deillio'n uniongyrchol o benderfyniadau gwleidyddol. Er mwyn cynnal yr egwyddor honno, bydd angen ymestyn yr egwyddor hyd braich i gynnwys cyfrifoldebau ehangach y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a gynllunnir. O safbwynt ymarferol, mae'n dilyn bod angen i gorff hyd braich ddarparu'r arbenigedd ar gyfer rheoleiddio, cyllido a goruchwyllo darparwyr addysg drydyddol. Gan fod yr arbenigedd hwnnw ar gael i Weinidogion Cymru drwy'r Comisiwn, ni ddylai fod unrhyw angen i Weinidogion Cymru gael pwerau i gyllido na phennu'n union sut y dylai'r Comisiwn gyflawni ei ddyletswyddau. Fel corff hyd braich, y debyg i gyrff eraill a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, dylid ymddiried yn y Comisiwn, ac arddangos ymddiriedaeth yn y Comisiwn, i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion Cymru. Byddai llythyr cylch gwaith blynyddol yn llywio'r gwaith hwnnw'n fras. Byddai pellter addas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn fodd i sicrhau nad yw'r Llywodraeth yn cael ei maglu mewn materion gweithredol sy'n gysylltiedig â chyllido, rheoleiddio a monitro perfformiad darparwyr. Mae parch at yr arbenigedd, a pherthynas wedi'i seilio ar ymddiriedaeth, yn hollbwysig, fel y nodir yn glir yng [nghytundeb fframwaith](#) Llywodraeth Cymru ei hun, sy'n rheoli ei ddull o weithredu. Dylai'r trefniadau hyn fod yn berthnasol i'r Comisiwn.

- 2.3 Yn yr un modd â CCAUC, byddai'r canlynol yn wir yn achos y Comisiwn:
- byddai'n atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog ac i'r Senedd;
  - byddai wedi'i gynnwys mewn llawer o ddeddfwriaeth;
  - byddai ganddo ei gynllun strategol, a'i gynlluniau gweithredu blynyddol, a gymeradwyir gan y Gweinidog;
  - byddai'n ofynnol iddo ymateb i flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru; a
  - byddai'n dibynnu ar y Gweinidog am ei setliad ariannol bob blwyddyn.

Credwn fod y trefniadau hyn yn diogelu cyrff cyhoeddus eraill yn ddigonol, ac nad oes angen unrhyw fesurau rheoli pellach. Mae perygl y gallai cyflwyno darpariaethau sy'n caniatáu i'r Llywodraeth weithredu ar lefel weithredol greu diffyg eglurder ynghylch trefniadau Llywodraethu, achosi dryswch ac oedi, a thanseilio gallu'r Comisiwn i gyflawni mewn modd priodol er budd Cymru. I raddau sylweddol, gallai hyn atal y Comisiwn rhag cyflawni ei rôl arweinyddol strategol, a'r sector addysg drydyddol rhag bod yn ystwyth a chydweithredol. Gallai hefyd danseilio ymreolaeth sefydliadau a'u statws <sup>4</sup> NPISH.

- 2.4 Rydym yn argymhell dileu'r darpariaethau canlynol yn gysylltiedig â phwerau Gweinidogion Cymru i liniaru'r risgiau rydym wedi'u nodi.
- Adran 13 - Dylid dileu pwerau sy'n galluogi Gweinidogion i addasu cynllun y Comisiwn yn unochrog. Gall Gweinidogion wrthod cynllun a gofyn i'r sefydliad ei ailgyflwyno i'w gymeradwyo. Mae perygl y bydd diwygio cynllun yn unochrog yn tanseilio rôl strategol y Comisiwn a'i arbenigedd ac yn amharu ar rôl y Llywodraeth mewn achosion apêl.
  - Adran 19 (4) (5) - Dylid dileu bod Gweinidogion yn rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau'n gysylltiedig â chyrsgiau neu feysydd ymchwil neilltuol. Ceir risg sylweddol y gallai Gweinidog sy'n arfer pŵer o'r fath gulhau ffocws darpariaeth cyrsiau a gweithgarwch ymchwil yng Nghymru ar flaenoriaethau Gweinidogol byrdymor, a fyddai'n dadsefydlogi sefyllfa'r sector yn y tymor hir. Mae rhagoriaeth mewn ymchwil yn dibynnu ar gefnogi'r llawer o wahanol fathau o ymchwil sydd eu hangen i gynnig

---

<sup>4</sup>Sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu cartrefi.

mewnwelediad i'r heriau o'n blaen heddiw, a hefyd i ehangu ein gwybodaeth mewn meysydd y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol. Gall ffocysu cyllid mewn meysydd penodol annog ymchwil ddylanwadol i heriau sydd o bwys, ond ceir elfen anochel o ddewis yn gysylltiedig â hyn, ac ni fydd modd cynnwys popeth sy'n bwysig. Mae buddsoddiad cyson ar draws holl ehangder y sylfaen ymchwil yn gyd-atgyfnerthol.

- Adrannau 94 -100 - Dylai'r pwerau hynny sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido addysg bellach a hyfforddiant ar yr un pryd, ac yn yr un modd, â'r Comisiwn, gael eu dileu a pharhau i fod ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiwn. Mae'n debygol y bydd cyllid gan Weinidogion ochr yn ochr â'r Comisiwn yn arwain at flaenoriaethau strategol aneglur, gan ddrysu'r llinellau atebolrwydd ac ychwanegu elfen ddiangen o gymhlethdod i ddarparwyr.
- Adran 106 - Mae pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ynghylch cymorth ariannol yn cymhlethu cyfrifoldebau'r naill a'r llall, a dylid ei ddileu. Pe bai pŵer o'r fath yn cael ei ddefnyddio byddai perygl iddo danseilio statws NPISH y sefydliadau. Gallai hyn yn ei dro ddod â chyfrifon a dyledion cysylltiedig y sefydliadau hynny i mewn i lyfrau Llywodraeth Cymru.
- Adran 111 - Dylid dileu bod Gweinidogion Cymru yn manylu ar ofynion yn gysylltiedig â phrentisiaethau cymeradwy Cymru. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion i nodi'n arbennig o fanwl beth yw cynnwys fframweithiau prentisiaeth y bydd gan y Comisiwn gyfrifoldeb statudol drostynt. Mae perygl i'r lefel ddiangen o ymyrraeth danseilio uchelgais strategol y Comisiwn a drysu cyfrifoldebau. Os mai'r Comisiwn yn unig sy'n gyfrifol am hyn, a'i fod yn unig bwynt cyswllt, bydd hynny'n gliriach i'r holl randdeiliaid, ac yn lleihau cymhlethdod a biwrocratiaeth.
- Adran 126 - Dylid dileu'r gofyniad i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth i <sup>5</sup> Weinidogion. Er mwyn i'r Comisiwn fod yn gorff rheoleiddio effeithiol, mae'n rhaid iddo gadw cyfrinachedd y cyrff a reoleiddir er mwyn iddynt allu darparu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif mewn modd diogel. Os ceir gofyniad i'r Comisiwn rannu unrhyw gyfran o'r wybodaeth honno, neu'r cyfan ohoni, i ddibenion amhenodol, â Gweinidogion Cymru mae perygl i hynny danseilio capasiti'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Gallai amharu ar allu darparwyr i gyflenwi gwybodaeth gyfrinachol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Rydym yn gwneud yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar ein profiad fel corff rheoleiddio sy'n gweithredu gydag ymddiriedaeth darparwyr. Dylai'r ddarpariaeth caniatâd yn is-adran 3 fod yn ddigonol yn yr achos hwn.
- Atodlen 1 - Adran 11. Dileu'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn ynghyd â hynny. Ni roddir unrhyw sail resymegol ar gyfer hyn, a gallai cydbwysedd yr arbenigedd ar Fwrdd y Comisiwn fod yn y fantol.

### *Asesu ansawdd*

- 2.5 Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu, monitro a hyrwyddo gwelliant i ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws darparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn ac a gyllidir ganddo. Fodd bynnag, mae'r

---

<sup>5</sup>Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn cynnwys darpariaeth debyg a fynegir drwy ddweud 'dylai' (shall) yn hytrach na 'rhaid' (must). Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cryfhau'r ddyletswydd ar y Comisiwn i ddarparu gwybodaeth ac nid yw'n adlewyrchu'r trefniadau gweithio cyfredol.

ddeddfwriaeth hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i Estyn ei arolygu, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn gyllido Estyn i gyflawni hynny. Mae hynny'n golygu y bydd gan Estyn a'r Comisiwn bwerau a chyfrifoldebau statudol dros ansawdd a bydd yn rhaid i gynlluniau Estyn ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau fod wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn a hefyd gan Lywodraeth Cymru. Os yw'r Comisiwn newydd yn gyfrifol am roi arweiniad a chyfarwyddyd strategol, ceir risg na fydd y trefniadau cymhleth a manwl a nodir yn y Bil yn gwireddu bwriadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'n trin addysg bellach ac addysg uwch yn wahanol, gan danseilio'r cysyniad o greu un sector a pharch cydradd ar draws addysg drydyddol.

- 2.6 Rydym yn argymhell dileu trefniadau mor fanwl â hynny, fel y'u nodir yn adran 52 hyd at adran 70 y ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn gadael yr adrannau hynny o'r Bil sy'n galluogi'r Comisiwn i benderfynu sut y gall gyflawni ei swyddogaethau. Ni fwriedir i hyn danseilio Estyn: i'r gwrthwyneb. Dylai'r Comisiwn gael ei rymuso i roi arweinyddiaeth strategol ac, mewn partneriaeth ag Estyn, i benderfynu sut y cyflawnir y swyddogaethau hynny. Nid oes angen pwerau statudol ar wahân ar gyfer yr ASA i weithredu ar hyn o bryd. Ni ddylai fod angen hynny ar Estyn ar gyfer addysg ôl-orfodol ychwaith. Bydd hyn hefyd yn galluogi Estyn i arolygu darpariaeth a bodloni gofynion addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n newid o hyd, heb gyfyngiadau'n gysylltiedig â gofynion cyfredol a all ddyddio'n gyflym. Ein barn ni yw y bydd hyn o fudd i'r Comisiwn, i Estyn ac, yn bennaf oll, i fyfyrwyr, i gyflogwyr ac o ran darpariaeth addysg yng Nghymru.
- 2.7 Rydym yn argymhell dileu'r ddarpariaeth i ddynodi corff ansawdd ar gyfer asesu darpariaeth addysg uwch (adran 54 ac atodlen 3). Er mwyn i'r sector a'r Comisiwn ymateb yn ystwyth i ofynion addysg ac amgylchedd economaidd dynamig, mae'n rhaid i'r Comisiwn allu penderfynu sut mae'n asesu, neu'n trefnu i asesu, ansawdd addysg. Os ychwanegir haen o brosesau caeth i bennu sut y dylid gwneud y trefniadau hyn, mae perygl i hynny atal y Comisiwn rhag ymateb yn ystwyth i sefyllfaoedd lle dylid asesu ansawdd i ddiogelu buddiannau myfyrwyr, anghenion cyflogwyr, enw da'r gyfundrefn addysg yng Nghymru a'r pwrs cyhoeddus. Rydym yn cydnabod bod darpariaethau corff ansawdd dynodedig yn adlewyrchu darpariaethau deddfwriaeth Lloegr, ond mae'r cyd-destun yng Nghymru yn wahanol, a bydd hynny'n parhau gyda dyfodiad y Comisiwn, felly does dim angen adlewyrchu'r trefniadau. Mae'r ddeddfwriaeth, fel y mae wedi'i drafftio, yn cynnwys pwerau i'r Comisiwn ddarparu cyllid grant (adran 100) y gellid ei ddefnyddio i sicrhau gwasanaethau sefydliad allanol i gynnal asesiad o ansawdd, ac na fydd angen dynodi corff penodol i gyflawni'r swyddogaeth honno.

#### *Ymchwil ac arloesi*

- 2.8 Rydym wedi argymhell y dylid ychwanegu dyletswydd strategol newydd at y Bil ar gyfer cydweithio a chystadleurwydd, ac y dylid diwygio'r ddyletswydd cydweithio a chydlyniant i ganolbwyntio ar addysg yn unig. Os bydd dyletswydd i'r Comisiwn ystyried cydlyniant wrth gyflawni ei swyddogaethau'n gysylltiedig ag ymchwil, credwn fod perygl i hynny atal prifysgolion rhag gallu cystadlu am gyllid ymchwil allanol. Mae system cyllido ymchwil y DU, y mae prifysgolion Cymru'n rhan ohoni, yn seiliedig ar ysgogi rhagoriaeth drwy gystadleuaeth. Gan hynny, mae dyletswydd cystadleurwydd yn gosod



dyletswydd benodol ar y Comisiwn i alluogi prifysgolion Cymru i gyflawni y tu hwnt i bob disgwyl, yn ei thro'n dod â buddion yn ôl i Gymru. Nid yw hyn yn atal y comisiwn rhag hyrwyddo cydweithio, yn wir cytunwn y dylai hyn hefyd fod yn ddyletswydd strategol o ran ymchwil ac arloesi, ond dim ond drwy ganolbwyntio ar gystadleurwydd y bydd y Comisiwn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau strategol eraill, yn enwedig y ddyletswydd i gyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol.

- 2.9 Er mwyn i Gymru gynhyrchu canlyniadau ymchwil o ansawdd uchel, a chystadlu'n llwyddiannus am gyllid ymchwil allanol, dylai cyllid prifysgolion drwy'r Comisiwn eu galluogi i ymateb yn ystwyth i egin-feysydd ymchwil newydd. Yn ogystal â hynny, os yw'r Comisiwn am roi arweiniad strategol ym maes ymchwil, dylai arbenigedd ym mholisi ymchwil y DU a rhyngwladol ei alluogi i benderfynu sut y dylid dyrannu cyllid ymchwil addysg uwch. Ceir risg felly fod dal pwerau'n ôl gan Weinidogion o dan Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 a Deddf Addysg Uwch 2004<sup>6</sup> i'w galluogi i gyllido ymchwil addysg uwch yn tanseilio'r arweinyddiaeth strategol honno a gallu'r Comisiwn i weithredu ar raddfa'r DU. Mae hyn hefyd yn tanseilio'r egwyddor hyd braich sy'n sicrhau bod ymchwil mewn addysg uwch yn rhydd rhag dylanwad neu reolaeth uniongyrchol o du'r llywodraeth.
- 2.10 Deellir yn eang fod system "cymorth deuol" ar gyfer cyllid ymchwil yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ein gallu i gyflawni y tu hwnt i bob disgwyl yn nhermau ansawdd yr ymchwil a gynhyrchir. Mae grantiau bloc, fel y cyllid cysylltiedig ag ansawdd a ddyrennir gan CCAUC ar hyn o bryd yn tanategu gweithgarwch ymchwil ar draws disgyblaethau, gan alluogi sefydliadau i bennu strategaethau hirdymor a buddsoddi mewn ymchwil o'r gwaelod i fyny, a ysgogir gan chwilfrydedd, a all ffynnu i greu rhaglenni mwy, a mwy targededig. Bydd yn bwysig i'r Comisiwn allu cynnal goruchwyliaeth strategol o'r cydbwysedd rhwng gwahanol gynlluniau cyllido, a bydd pwerau a gedwir yn ôl gan Weinidogion Cymru i gyllido ymchwil addysg uwch yn amharu ar yr oruchwyliaeth honno.
- 2.11 Rydym felly'n argymhell y dylid diddymu'r pwerau cysylltiedig yn Neddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 a Deddf Addysg Uwch 2004. O gadw'r pwerau hyn, dylid diwygio'r darnau presennol hynny o ddeddfwriaeth i gynnwys ymrwymiad cyfreithiol i'r Llywodraeth gynnwys y Comisiwn wrth benderfynu sut i ddyrannu cyllid ymchwil addysg uwch.
- 2.12 Os bydd y Llywodraeth yn pennu meysydd ymchwil yng nghynllun strategol y Comisiwn, neu'n cyfarwyddo'r Comisiwn i gyllido meysydd ymchwil penodol, mae perygl i hynny leihau cyfanswm y cyllid capasiti ymchwil er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau byrdymor. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gystadlu am ffynonellau incwm ymchwil allanol nad ydynt yn cyd-fynd â'r meysydd penodedig ac i gyfeirio adnoddau at egin-feysydd ymchwil a fydd yn datrys heriau'r dyfodol. Yn wir, dim ond drwy gyllid capasiti ymchwil y galluogwyd arbenigedd ym maes lled-ddargludyddion yn ne-ddwyrain Cymru, ddegawdau cyn i hynny gael ei nodi'n faes o bwysigrwydd strategol. Byddem yn argymhell dileu'r cyfeiriad a'r pwerau'n gysylltiedig â meysydd ymchwil i leihau'r risg na fydd canlyniadau strategol hirdymor yn cael eu cyflawni.

---

<sup>6</sup> Ni ddarparwyd tystiolaeth o blaid cadw'r pwerau hyn mewn unrhyw ddogfennau ategol.

- 2.13 Bydd yn rhaid i'r Comisiwn fod yn rhesymol ynghylch y modd y mae'n dyrannu cyllid, neu gael ei herio. Ymddengys fod Adran 103 (4) yn cynnwys gormod o fanylion gweithredol ar gyfer deddfwriaeth, felly cynigiwn y dylid ei dileu. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn fod yn rhesymol a sicrhau sail gadarn ar gyfer dyraniadau. Mae'r amddiffyniadau a geir eisoes drwy gyfraith gyhoeddus yn ddigonol yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylid diwygio adran 102 (3) i gynnwys dyletswydd y dylai'r Comisiwn roi ystyriaeth i'r egwyddor o gydbwysu'r mathau o gyllid ar gyfer ymchwil wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd y dull cytbwys hwn yn cryfhau'r ddyletswydd i'r Comisiwn gefnogi prifysgolion er mwyn iddynt allu ymateb i flaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol.

Unrhyw rwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt (gan gynnwys cychwyn Deddf Marchnadoedd Mewnol y Deyrnas Unedig)

- 2.14 Mae'n anodd inni asesu'r rhwystrau i weithredu heb ddealltwriaeth o'r trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r Bil os bydd yn cael ei wneud yn Ddeddf, gan gynnwys amseriad gorchmynion cychwyn, a throsglwyddo staff CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn. Er nad pwrpas y Bil yw rhoi ystyriaeth i'r trefniadau gweithredol, ceir risg glir i weithrediad darpariaethau'r Bil os nad oes cynlluniau clir ar waith ar gyfer yr amrediad anferth o faterion gweithredol y mae angen ymdrin â nhw er mwyn sicrhau llwyddiant y Comisiwn. Mae staff CCAUC wedi parhau i gyflawni dyletswyddau CCAUC, gan wybod y byddai CCAUC yn cael ei ddiddymu ers 2016. Maent yn dal yn ansicr ynghylch pryd y byddant yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd, na pha rôl fydd ganddynt wrth ddatblygu'r prosesau i weithredu'r ddeddfwriaeth. Gyda'r fath ansicrwydd, mae staff CCAUC bellach yn chwilio am gyfleoedd swydd eraill, ac mae rhai eisoes wedi cael eu penodi i swyddi newydd o fewn sefydliadau eraill. Bydd colli'r arbenigedd hwn yn rhwystr i gyflawni unrhyw ddarpariaethau yn y Bil yn effeithiol, a hefyd yn rhwystr i gyflawni swyddogaethau parhaus CCAUC. Gan dybio y bydd y Bil yn cael ei basio, credwn yn gryf y dylid symud ymlaen i'w weithredu'n ddi-oed, i liniaru rhag y risgiau hyn i barhad busnes. Lle bynnag y bo modd, byddem hefyd yn argymhell yn gryf fod yr ymagwedd at weithredu'n gwneud defnydd o drefniadau a systemau sy'n bodoli eisoes i sicrhau cyn lleied â phosib o gymhlethdod, a risgiau cysylltiedig wrth drosglwyddo o'r naill gorff i'r llall. O ran hyn, credwn y dylid rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd mewn datblygiadau tebyg, fel ELWa.
- 2.15 Mae'r ffaith nad yw asesiad effaith llawn wedi cael ei gynnal o'r modd y cyflawnir y Bil, gan nad oes dealltwriaeth o'r trefniadau gweithredol, yn risg ychwanegol. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol ar nodweddion gwarchoddedig unigol, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru greu is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)

- 2.16 Mae'r rheoliadau ar gyfer sefydlu'r gofrestr yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir risg y bydd y bwriad polisi i ddefnyddio'r gofrestr i reoleiddio darparwyr

sy'n ceisio cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yn unig yn atal y Comisiwn rhag sicrhau parch cydradd a system gyson. Ein cyngor i Weinidogion yw y dylid creu ystod ehangach o gategoriâu cofrestru, a chanddynt ofynion sylfaenol teg. Ein barn ni yw y byddai hyn yn galluogi gwell trosolwg strategol gan gydnabod amrywiaeth darparwyr.

- 2.17 Os bydd y rheoliadau yn cynnwys y manylion gweithredol y byddai angen i'r Comisiwn eu hystyried wrth ganiatáu talu arian i gorff cydweithredol, mae perygl i hynny atal y Comisiwn rhag gallu ymateb yn ystwyth i geisiadau o'r fath, a pheri i'r Comisiwn ddefnyddio llawer o adnoddau i'r perwyl hwnnw. Dylai sefydliadau allu cydweithio a gweithio'n hyblyg er mwyn bodloni anghenion newydd ac anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac er mwyn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r DU. Mae'n rhaid iddynt fod yn atebol am y cyllid y maent yn ei dderbyn oddi wrth y Comisiwn a rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau cydweithio priodol. Ein barn ni yw y dylid nodi'r disgwyliadau o ran partneriaeth yn y cyfarwyddyd i'r Comisiwn yn hytrach na mewn rheoliadau. Dylai disgwyliadau o'r fath fod yn rhai dangosol yn hytrach na phenodol, gan ganiatáu i'r Comisiwn roi cyngor ac arweiniad ar yr hyn sydd ei angen i roi sicrwydd, a sut y dylid rhoi'r sicrwydd hwnnw. Ceir trefniadau hirsefydlog ar gyfer rheoli a goruchwyllo partneriaethau, ar gyfer cydweithio mewn addysg ac ymchwil, ac nid yw'r memorandwm esboniadol wedi cyflwyno'r achos o blaid cael deddfwriaeth fanylach. O'r herwydd, ein barn ni yw y dylid dileu adran 105 (1) o'r Bil.
- 2.18 Ein barn ni yw y dylid dileu adran 86 o'r Bil. Os oes bylchau strategol mewn darpariaeth dylai fod gan y Comisiwn y cyllid angenrheidiol, a dylai ddefnyddio'i bwerau i gyllido, rheoleiddio a dylanwadu ar ddarparwyr. O ddefnyddio'r pŵer hwn, ceir risg y gallai arian gael ei ddyrannu i ddarparwydd lle nad oes gan y Comisiwn unrhyw drosolwg fel corff rheoleiddio neu gyllido, ac na fyddai' gallu rhoi sicrwydd ynghylch defnydd priodol o gyllid cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy'r rheoliadau, i gyllido darpariaeth, a allai danseilio safbwynt strategol y Comisiwn.

A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.

- 2.19 Ceir risg y gallai manylu cymaint ar yr hyn y dylai'r Comisiwn ei ystyried er mwyn cyflawni dyletswyddau strategol y ddeddfwriaeth amharu ar allu'r Comisiwn i gyflawni ar draws holl uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar ei gyfer. Mae a wnelo un enghraifft o hyn â chyflawni'r ddyletswydd ar gyfer dysgu gydol oes gan sicrhau ar yr un pryd bod pob myfyriwr yn cael ei gadw hyd ddiwedd y cwrs. Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn ennill credyd fel rhan werthfawr o'u haddysg gydol oes, yn hytrach nag yn rhan o gwrs neu gymhwyster. Yn ogystal â hynny, wrth gyflawni swyddogaeth y Comisiwn i hyrwyddo cydweithio a chydlyniant, ceir gofyniad i alinio darpariaeth â blaenoriaethau ymchwil. Fel hyn, byddai perygl i ddarpariaeth fod yn rhy gul ei ffocws, heb gynnwys yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sy'n galluogi unigolion a darparwyr i fod yn hyblyg i amgylcheddau a gofynion newidiol, na all y llywodraeth na'r Comisiwn eu rhagweld. Argymhellwn na ddylid cynnwys cymaint o fanylion o dan bob dyletswydd strategol, ac y dylai Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r Comisiwn ynghylch ei disgwyliadau.

- 2.20 Mae peidio gosod dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer pob darpariaeth yng Nghymru yn creu risg y bydd cyllid a gaiff rhannau o'r ddarpariaeth yn anghymesur â rhannau eraill. Rydym yn argymhell y dylai'r Bil naill ai osod dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol i bob myfyriwr, neu osod dyletswydd i sicrhau ymagwedd gytbwys at gyllido ar draws pob darpariaeth a gyllidir gan y Comisiwn.
- 2.21 Un o'r bylchau wrth oruchwylio ansawdd addysg uwch yng Nghymru yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylio darpariaeth wedi'i dilysu, ei breinio, neu ei chyflenwi'n uniongyrchol gan ddarparydd â phwerau dyfarnu yng Nghymru, ond a gyflenwir y tu allan i Gymru, gan gynnwys mewn gwledydd tramor. Mae'n bosibl mai dyma'r math o ddarpariaeth lle ceir y mwyaf o risg, a gallai niweidio enw da'r sector addysg drydyddol gyfan yng Nghymru. Nid yw'n glir pam nad yw'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno pwerau i'r Comisiwn oruchwylio'r ddarpariaeth hon, yn yr un modd ag y mae'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn goruchwylio ansawdd a safonau (hy, ansawdd y dyfarniadau a roddir gan brifysgol).
- 2.22 Nid yw adrannau 67-70 ond yn rhoi pwerau i ymyrryd yn y modd y cynhelir sefydliadau addysg bellach. Nid yw adran 71 a 72 y Bil ond yn cynnwys darpariaeth i gydweithio, ac i alluogi'r Comisiwn i gael mynediad at gyfleusterau yn rhan o'i rôl ansawdd, yn achos sefydliadau addysg bellach. Os mai'r nod yw chwalu'r rhwystrau rhwng y gwahanol sectorau yn y sector addysg drydyddol ehangach, byddai'n ddoeth dangos hynny drwy'r ddeddfwriaeth a sicrhau bod y pwerau hyn wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl ddarparwyr. Mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Bil rydym wedi nodi lle dylai pwerau fod ar waith ar gyfer pob darparydd.
- 2.23 Mae'r ddyletswydd yn adran 78 i'r Comisiwn fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol y darparwyr y mae'n eu rheoleiddio ac yn eu cyllido ar hyn o bryd yn cynnwys gofyniad i gyflwyno rhagolwg ariannol ar gyfer pob darparydd y mae'n ei reoleiddio a'i gyllido. Gan fod yr wybodaeth ariannol a dderbynnir gan y Comisiwn o natur gyfrinachol a masnachol-sensitif, mae perygl y gallai rhai darparwyr fod yn amharod i rannu'r wybodaeth honno os caiff wedyn ei rhannu â Gweinidogion Cymru (paragraffau 2.4 - bwled 6). Byddai hyn yn atal y Comisiwn rhag cyflawni ei swyddogaeth goruchwylio strategol. Rydym yn argymhell na ddylai'r ddeddfwriaeth ond ei gwneud yn ofynnol rhannu crynodeb rhesymol, ac mai'r Comisiwn a ddylai benderfynu ar yr hyn sy'n berthnasol i'w gynnwys. Byddai hyn yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru, gan alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei gyfrifoldebau ar yr un pryd.
- 2.24 Gallai cadarnhau deddfwriaeth gyfredol sy'n galluogi Gweinidogion i gyllido cyrsiau addysg uwch neilltuol danseilio'r cysyniad o gael sector addysg drydyddol cyfun, a goruchwyliaeth strategol y Comisiwn dros yr holl ddarpariaeth o fewn y sector hwnnw. Nid yw'r sail resymegol yn y memorandwm esboniadol, fod cadw'r pwerau hyn yn golygu bod modd cyllido mentrau cyfredol yn tymor byr i'r tymor canolig, yn ymddangos yn gymesur. Gellid diddymu'r ddeddfwriaeth gyfredol, fel bo'r angen, a gallai'r Comisiwn gyllido cyrsiau o fewn darparwyr lle bo hynny'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolig. Rydym felly wedi awgrymu y dylid dileu adran

89 y Bil. Pe bai adran 89 o'r Bil yn aros, dylai gynnwys dyletswydd i Weinidogion gynnwys y Comisiwn yn ei benderfyniadau i gyllido cyrsiau drwy ddefnyddio'r pŵer hwnnw.

- 2.25 Bydd angen i'r Comisiwn fod yn ystwyth er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol, a bydd hynny'n cynnwys gallu rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill, ac iddynt hwythau, yn eu tro, allu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. Drwy restru'r unigolion a gaiff rannu gwybodaeth â'r Comisiwn, yn adran 128 (1), mae perygl i'r rhai nad ydynt wedi'u rhestru gael eu heithrio. Bydd angen i'r Comisiwn allu rhannu gwybodaeth â sefydliadau nad ydynt ar y rhestr, a bydd angen iddo wneud cais am wybodaeth gan sefydliadau nad ydynt ar y rhestr, mewn modd hyblyg a theg. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhestr ond yn cynnwys un corff cyllido a rheoleiddio yn Lloegr (y Swyddfa Fyfyrrwyr) ac felly bydd angen deddfwriaeth bellach ar unwaith (yn unol ag adran 128 (1) (k)) os bydd angen gwybodaeth gan gyrff cyllido neu reoleiddio y tu allan i Gymru. Er mwyn galluogi rhannu gwybodaeth y naill a'r llall, awgrymir y dylid diwygio adran 128 (1) (k) i fod yn fwy cydnaws â'r ddarpariaeth a wnaed yn adran 128 (2). Fel arall, byddai angen i'r Comisiwn ddibynnu ar ddiwygio rheoliadau drwy'r broses ddeddfwriaethol, ac mae perygl i hynny atal y Comisiwn rhag gweithredu'n brydlon ac mewn modd hyblyg mewn ymateb i amgylchiadau unigryw neu heriau sy'n dod i'r amlwg (mae pandemig Covid-19 yn enghraifft o hyn), ac yn benodol fel bo'r angen yng nghyd-destun y DU.
- 2.26 Er ein bod yn cydnabod y bydd angen i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gael gwybodaeth am geisiadau a derbyniadau, mae adrannau 129 a 130 yn or-ragnodol, yn enwedig o'u cymharu â meysydd eraill sydd o ddiddordeb fel ymrestriadau ar gyrsiau addysg uwch. Er enghraifft, mae adran 130 (2) yn trafod cyhoeddi ymchwil i wybodaeth am geisiadau a derbyniadau. Ni cheir darpariaeth o'r fath yn y Bil ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth arall, fel dadansoddiad o ymrestriadau myfyrwyr. Yn gyffredinol, byddai cyhoeddi gwybodaeth ystadegol wedi'i gynnwys o dan gynllun cyhoeddi a gweithdrefnau rheoli datgelu data y cyrff a grybwyllir yn 130(2). Ymddengys fod y sefydliad sy'n dal data ar geisiadau a derbyniadau ar hyn o bryd, UCAS, wedi'i gynnwys yn adran 128(1)(j) felly nid oes angen adrannau 129 na 130, a dylid eu hepgor. Nid yw terminoleg yr adrannau hyn yn glir ychwaith (ceir cyfeiriadau at 'ddarparwyr addysg drydyddol', 'sefydliadau' a'r 'sector addysg uwch').
- 2.27 Mae'r datganiad o fwriad yn nodi na fydd angen statws elusennol ar ddarparwyr yng nghategori amgen y gofrestr a gynigir. Gallai hynny greu'r risg bod mwy o ddarparwyr yn cyflenwi addysg uwch yng Nghymru gan gynyddu cystadleuaeth ddi-fudd. Roedd hi'n gam cadarnhaol cyflwyno'r gofyniad y dylai'r holl sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 fod yn elusennau. Sylwn fod Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi ceisio gwneud statws elusennol yn ofyniad ar gyfer dynodiad cwrs penodol yng Nghymru. Dylid defnyddio'r Bil i alluogi'r canlyniad cadarnhaol hwn o ran polisi.

#### Goblygiadau ariannol y Bil

- 2.28 Yn ôl amcangyfrifon y Llywodraeth ei hun, gallai gostio £45m i gyflwyno'r ddeddfwriaeth, a gallai gymryd sawl blwyddyn i'r system newydd fod yn llwyr weithredol. Ar sail ein profiad o weithredu Deddf AU 2015, bydd yn cymryd

llawer mwy o amser ac yn costio mwy na hynny er mwyn rhoi ei holl swyddogaethau ar waith yn llawn. Amcangyfrifwn y byddai'n uchelgeisiol i ddisgwyl bod y Comisiwn yn llwyr weithredol, ac yn cyflawni'r ystod lawn o'i ddyletswyddau a'r nodau a fwriadwyd ar ei gyfer, erbyn blwyddyn academaidd 2026/27 ar y cynharaf.

- 2.29 Heb addasu rhai o'r cynigion deddfwriaethol, ceir risg y bydd hyn yn tarfu i raddau sylweddol ar addysg drydyddol yng Nghymru ac yn peryglu ei henw da. Fel y crybwyllwyd ar ddechrau'r papur hwn, mae CCAUC yn cefnogi'r egwyddorion sydd wrth wraidd y diwygiadau, ac yn cefnogi hefyd y nod cyffredinol o sefydlu corff cyllido a rheoleiddio cyfun hyd braich ar gyfer addysg drydyddol. Credwn y bydd y newidiadau a awgrymir uchod, ac a atodir, yn ei gwneud hi'n bosibl i wireddu gweledigaeth y Comisiwn newydd, a'r effeithiau a fwriedir yn ei sgil, hyd yr eithaf, ac y bydd yn sefyll prawf amser a buddsoddiad.

### **3 Casgliad**

- 3.1 Mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle i Gymru ddarparu system addysg uwch nad yw'n ceisio sicrhau unffurfedd, ond yn hytrach, cytgor; sy'n canolbwyntio ar gyflenwoldeb yn hytrach na'r gystadleuaeth bresennol. Dyna'r wob, ac mae'n werth buddsoddi arian cyhoeddus yn hynny. Dyna pam ein bod wedi cefnogi argymhellion adolygiad Hazelkorn, a pham ein bod o blaid y nodau a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Comisiwn newydd, er y bydd hynny'n arwain at ddiddymu CCAUC. Dyna pam ein bod wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan gyflwyno'r argymhellion uchod. O gyflwyno'r newidiadau hyn i'r Bil, credwn y gellid gwireddu'r weledigaeth honno. Heb y newidiadau, ein pryder yw y bydd arian ac adnoddau cyhoeddus yn cael eu buddsoddi ledled Cymru heb sicrhau'r budd a fwriedir.